

Mae fy nghyngor yn hyrwyddo'r Siarter MND

Sut beth fyddai bywyd yn gaeth mewn corff methodig, yn methu symud na siarad ac, yn y pen draw, yn methu anadlu?

Byddai fel byw gyda chlefyd niwronau motor (MND).

Nes ceir iachâd ar gyfer MND, yr hyn sydd bwysicaf yw bod pobl â'r cyflwr yn cael y gofal priodol, yn y lle priodol, ar yr amser priodol i sicrhau'r ansawdd bywyd uchaf posibl a'r gallu i farw gydag urddas.

Nod y Siarter MND yw helpu i sicrhau hyn.



**HYRWYDDO'R
SIARTER
AR GARREG
EICH DRWS**



"Mae llawer o bobl sydd ag MND yn marw heb gael y gofal iawn, heb gael cadair olwyn addas, heb y gefnogaeth i gyfathrebu... Mae'n rhaid i ni atal yr anwybodaeth ynghylch y clefyd hwn"

Liam Dwyer, sy'n byw ag MND

Mae'r Siarter MND yn rhoi gwell dealltwriaeth i bawb sy'n gweithio dros y cyngor, a gyda'r cyngor, o anghenion pobl ag MND a'u gofalwyr, a'u hyder wrth ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu'r anghenion hynny.

Pum pwynt y Siarter yw:

- 1 Yr hawl i gael diagnosis a gwybodaeth yn gynnar.
- 2 Yr hawl i gael mynediad at ofal a thriniaethau o safon.
- 3 Yr hawl i gael eu trin fel unigolion a chydag urddas a pharch.
- 4 Yr hawl i gael yr ansawdd bywyd gorau posibl.
- 5 Mae gan ofalwyr pobl ag MND yr hawl i gael eu gwerthfawrogi, eu parchu, eu cefnogi'n dda ac i'w llais gael ei glywed.

Mae'r Siarter MND yn ei chyfanwydd yn ymhelaethu ar bob un o'r pum pwynt sy'n dangos sut beth yw gofal da i bobl sydd ag MND

Beth allwch chi ei wneud: llwythwch i lawr a darllenwch y siarter MND yn ei chyfanwydd yn www.mndassociation.org/mndcharter

E-bostiwrch: campaigns@mndassociation.org

Ffoniwrch: 0207 250 8447

www.mndassociation.org

 @mndcampaignsWLS

#ChampionTheCharter

 /mndcampaigns

ysartermnd